



**Adroddiad Monitro
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
i Gomisiynydd Y Gymraeg
am y cyfnod rhwng
1af Ebrill 2014 – 31ain Mawrth 2015**

Cynnwys	Tud.
1. <u>Cyflwyniad</u>	3
2. <u>Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun</u>	3
3. <u>Ein Cynnydd yn ystod 2014-15</u>	5
4. <u>Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg</u>	10
5. <u>Dangosyddion Perfformiad yn gysylltiedig â'r Gymraeg</u>	16
6. <u>Atodiad 1 – Canlyniadau Arolwg Adnoddau GTAGC</u>	37

1. Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn adrodd 2014-2015.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym ni fel Gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal safonau ac arferion da wrth i ni barhau i gydymffurfio gyda'n Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol.

Rydym wedi bod wrthi'n ddygn dros y 12 mis diwethaf yn paratoui ar gyfer y Safonau Iaith Gymraeg sydd yn yr arfaeth. Mae'r Grŵp Iaith sy'n gweithredu ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cyfarfod ar sawl achlysur i weld lle'r ydym ni arni nawr a'r camau y bydd yn rhaid i ni fel Gwasanaeth eu cymryd i gydymffurfio'n llawn gyda'r Safonau pan fyddant yn dod i rym. Mae'r tri Gwasanaeth wedi bod yn awyddus i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau Cymraeg ar draws Cymru.

Yn dilyn cwblhau Holiadur y Comisiynydd y llynedd rydym yn aros am ragor o arweiniad ynglŷn â'r Safonau a fydd yn ddarostyngedig arnom yn ddiweddarach eleni.

Edrychwn ymlaen at yr her yma ac at barhau i ddatblygu ein hymrwymiad i atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth ac i drigolion yng Ngogledd Cymru a thu hwnt.

2. Rheoli a gweinyddu'r Cynllun

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Richard Fairhead, sydd wedi bod yn gyfrifol am bortffolio iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ef sydd hefyd wedi bod yn cadeirio'r Fforwm Iaith Gymraeg sy'n cyfarfod yn chwarterol.

Mae'r Fforwm Iaith yn cynnwys uwch swyddogion o wahanol adrannau megis Adnoddau Dynol, Cyfathrebiadau Corfforaethol, Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Maent yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol. Fe gyfarfu'r Fforwm Iaith Gymraeg ar y dyddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn adrodd dan sylw (mae copïau o'r cofnodion ar gael ar gais).

- 13 Mai 2014
- 4 Medi 2014
- 3 Rhagfyr 2014
- 26 Ionawr 2015

Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu yw Cadeirydd Grŵp Iaith Gymraeg Pwyllgor Materion Cenedlaethol (ar draws y tri gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru). Y mae'r grŵp yma hefyd yn cyfarfod yn chwarterol ac y mae'n cynnwys yr aelodau canlynol:

Gogledd Cymru

Tracey Williams, Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Nici Siôn, Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg

De Cymru

Cath Baldwin, Swyddog Iaith Gymraeg

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ceri Jackson, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebiadau Corfforaethol

Fe gyfarfu'r grŵp ar y dyddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn adrodd dan sylw. Mae copïau o'r cofnodion ar gael ar gais.

- 8 Ebrill 2014
- 20 Mai 2014
- 1 Hydref 2014
- 9 Rhagfyr 2014
- 23 Chwefror 2015

Y Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol sydd yn gyfrifol am weinyddu'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth y Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg.

Mae penderfyniadau fel cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n ymgorffori'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, yn mynd gerbron Grŵp Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Y mae'r Adroddiad Monitro blynyddol hwn hefyd yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau i fynychu pwyllgorau a gweithgorau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae staff yn cynrychioli'r Gwasanaeth ar gyfarfodydd eraill, gan gynnwys:

- Rhwydiaith
- Hunaniaith
- Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

3. Ein Cynnydd yn ystod 2014-15

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

Rydym yn parhau i weithredu o fewn ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol ac rydym wedi cyflawni cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd 2014-15.

Rydym ni wedi parhau gyda'n hymrwymiad i wella ein hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o Gymraeg yn ein gweithle, yn ogystal â'r gymuned a'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu i bobl y Gogledd. Mae'r gweithgareddau a lansiwyd yn 2009 i geisio cyrraedd y nod hwn yn parhau i fynd o nerth i nerth er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol yr ydym wedi eu hwynebu eleni.

Isod, ceir amlinelliad o'r gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd penodol yma;

Technoleg Gwybodaeth ac Arfau Ieithyddol

- Rydym yn parhau i annog a chefnogi staff i wneud defnydd o'r meddalwedd a'r technolegau iaith sydd ar gael megis Cysgliad, Microsoft Word Cymraeg, Technoleg To Bach. Mae staff yn derbyn diweddariad o'r gwahanol dechnolegau iaith sydd ar gael ynghyd â gwybodaeth am amryw o wefannau dysgu Cymraeg mewn bwletin misol 'Mercher 'Marfer' sydd yn parhau i gael ei anfon i staff yn fisol. Yn dilyn cwblhau arolwg o'r defnydd a oedd yn cael ei wneud o'n hadnoddau yn gynharach eleni daeth i'r amlwg bod rhai aelodau staff yn dal i fod yn anymwybodol o'r technolegau sydd ar gael ac felly rydym wedi cynnwys colofn ychwanegol yn ein bwletin staff wythnosol i'w hamlygu yn well.
- Mae'r cyfleuster galluogi llais a osodwyd ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg yn parhau i fod yn arf defnyddiol iawn i nifer o ddefnyddwyr. Mae'r cyfleuster yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd pan fydd unrhyw ddeunydd ychwanegol yn cael ei lwytho ar y wefan. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon gwrandawyd ar 124 o dudalennau yn Gymraeg o gymharu â 2679 yn Saesneg. Y prif dudalennau y gwrandawyd arnynt yn Gymraeg oedd rhai yn ymwneud â recriwtio a'r CDs iaith Gymraeg.
- Mae rhwydweithio cymdeithasol wedi cael ei sefydlu'n gadarn fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu swyddogol y Gwasanaeth gyda dros 9,000 o ddilynwyr ar dudalen Facebook y Gwasanaeth a bron i 10,000 o ddilynwyr ar Twitter. Mae'r holl ddiweddariadau ar Facebook a Twitter yn cael eu darparu'n ddwyieithog ac y mae pobl yn dewis cyfathrebu gyda ni'n rheolaidd yn Gymraeg ar y safleoedd hyn. Rydym wedi manteisio ar y cyfryngau hyn i hybu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo digwyddiadau lleol yn ddwyieithog

megis ein Diwrnodau Hwyl i'r Teulu a chefnogi digwyddiadau cenedlaethol fel Diwrnod Shwmae, Diwrnod y Bathodyn ac aildrydaru negeseuon #Pethaubychain.

- Fel y bu i ni grybwyll uchod, fe gwblhaom arolwg o'r defnydd a wneir o'r adnoddau iaith Gymraeg sydd ar gael yn y Gwasanaeth. Rydym eisoes wedi rhoi camau ar waith i wella a hybu'r adnoddau hyn yn sgil y canlyniadau. Oherwydd mai dim ond nifer fechan a gymrodd ran rydym hefyd yn bwriadu ail gynnal yr arolwg, yn benodol i dargedu ein staff Rhan Amser. Ceir canlyniadau llawn yr arolwg yn Atodiad 1 isod.

Hyfforddiant a Datblygiad

- Mae ein rhaglen dysgu Cymraeg ar ffurf CD Lefel 1,2,a 3 yn parhau. Mae modd lawr lwytho neu wrando ar ein rhaglen CD dysgu Cymraeg ar ein gwefan, ac mae copiâu caled hefyd ar gael. Yn ôl canlyniadau'r arolwg a grybwyllwyd uchod fe ddefnyddiodd 62% o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur y rhaglen CD i ddysgu Cymraeg, ac fe ddefnyddiodd 55% y rhaglen i ddysgu eraill yn y gweithle.
- Rydym wedi parhau i gynnal cyrsiau Cymraeg eleni ar gyfer unigolion nad oedd yn gallu cyrraedd y safon ddisgwyliedig drwy gymorth y rhaglen CD yn unig.

Lefel 2: (Cwrs 4 diwrnod – 30 Ebrill a 7,14,21 Mai)

10 aelod staff yn bresennol a phawb yn llwyddo yn y prawf terfynol.

Lefel 3: (Cwrs 10 diwrnod – 2,3,4,15,16 Medi a 1,2,8,9,10 Hydref)

3 aelod staff yn bresennol ar gwrs a drefnwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Llwyddodd pawb i basio'r prawf terfynol.

Cwrs Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr (y cwrs Academi gynt a sefydlwyd fel cynllun peilot gan Hunaniaith yn wreiddiol)

Fe anfonom 3 rheolwr ar y cwrs yma eleni a ddarparwyd gan gwmni Iaith Cyf. Er gwaetha'r ffaith nad oedd y cwrs yma ar gael yn rhad ac am ddim eleni, fel yn achos y cyrsiau blaenorol. Roeddem o'r farn bod budd i anfon ychwanego o reolwyr ar y cwrs yma er gwaetha'r gost oherwydd llwyddiant y cwrs yn y gorffennol, sydd wedi ein galluogi i wella ein darpariaeth iaith Gymraeg yn fewnol o ganlyniad e.e. cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, cyfweld, cynnal cyfarfodydd un i un a rhoi cyflwyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Rydym hefyd yn parhau i gefnogi aelodau staff sydd yn dymuno mynychu cyrsiau cymunedol yn hytrach na chysiau mewnol. Rydym wedi darparu cefnogaeth drwy un ai dalu am gyrsiau neu neilltuo amser iddynt fynychu'r cyrsiau hyn yn lleol. Mae'r Cyfieithydd a'r Swyddog

Cyswllt Iaith Gymraeg a'r Hyrwyddwyr iaith Gymraeg yn parhau i gynnig gwersi a chefnogaeth yn fewnol. Yn sgil cyflwyno polisi i asesu unigolion cyn ac ar ôl cyrsiau, mae'r niferoedd sydd yn mynychu ein cyrsiau wedi gostwng oherwydd eu bos eisoes n bodloni'r safon iaith Gymraeg ddisgwyliedig hen yn wybod iddynt. Rydym yn parhau i gynnal cyrsiau drwy edrych ar anghenion ein staff. Rydym yn gofyn i bob aelod staff nodi pa gyrsiau fyddai o fantais iddynt hwy yn ystod eu gwerthusiadau blynyddol.

- Rydym yn falch o ddatgan eleni ein bod wedi lansio ein modiwl e-ddysgu o'r Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ar y 1af o Fawrth. I gyd fynd â lansiad y modiwl fe gynhaliom gystadleuaeth lle'r oedd cyfle i un aelod staff ennill hamper am gwblhau'r modiwl. Yn ystod y mis cyntaf fe gwblhaodd bron i 90 o bobl y modiwl. Mae'r sesiynau wyneb y wyneb yn parhau ochr yn ochr â'r modiwl hwn. Rydym yn gobeithio y bydd y modiwl hwn yn cael ei fabwysiadu gan y tri gwasanaeth tân ac Achub yng Nghymru maes o law ac mae sefydliadau eraill hefyd wedi mynegi diddordeb, yn bennaf Heddlu Gogledd Cymru ac aelodau Grŵp Gweithleoedd Dwyieithog Hunaniaith. Rydym yn fwy na pharod i rannu'r adnodd hwn gydag eraill.

Cymraeg yn y gweithle

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn perthyn i gorff hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd, sef Hunaniaith. Mae'r Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg yn cynrychioli'r Gwasanaeth ar Grŵp Gweithleoedd Dwyieithog Hunaniaith, sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i gydweithio a rhannu arferion da gyda sefydliadau cyhoeddus eraill. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon fe gymrodd y Cyfieithydd a'r Swyddog Iaith Gymraeg a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ran mewn cyfres o glipiau fideo dwyieithog a gafodd eu cynhyrchu gan Hunaniaith i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog ymysg staff.
- Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno dwy wobr i staff yn flynyddol, sef un am 'Gyfraniad i'r Gymraeg' a'r llall i 'Ddysgwr y Flwyddyn'. Cyflwynwyd y wobr 'Dysgwr y Flwyddyn' i John Dowling, Diffoddwr Tân Rhan Amser o Bwllheli. Er mai brodor o Lerpwl ydy John, mae wedi dysgu Cymraeg i safon mor uchel fel nad ydy pobl yn ymwybodol bod y Gymraeg yn ail iaith iddo. Cyflwynwyd y wobr iddo yn ystod Seremoni Wobrwyo a Chyflwyno Medalau'r Gwasanaeth ym mis Medi. Cafodd y wobr 'Cyfraniad i'r iaith Gymraeg' ei chyflwyno i Osian Hywel, Hyfforddwr Gweithredol ac un o'n Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg. Mae Osian wedi llwyddo i gyflwyno mwy o Gymraeg i'n cyrsiau gweithredol, sydd, yn draddodiadol, wedi eu cynnal yn Saesneg. Mae hefyd, yn rhinwedd ei rôl fel Hyrwyddwr wedi cefnogi ac ysgogi nifer o aelodau RDS newydd i ddysgu Cymraeg.

-

Y mae'r Cyfieithydd a'r Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd mewnol ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus megis cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r Fforwm Diogelwch Cymunedol yn parhau i gael ei gynnal yn gwbl ddwyieithog. Rydym yn parhau gyda'n hymrwymiad i gynnal cyfarfodydd dwyieithog yn fewnol ac y mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i unrhyw un yn ôl y galw.

- Eleni rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnig mwy o ddewis iaith mewn cyfweiliadau ac rydym wedi cydweithio gyda'r adran Adnoddau Dynol i gynnig dewis iaith i bawb sydd yn ymgeisio am swydd gyda'r Gwasanaeth. Mae gofyn i bawb sydd yn ymgeisio am swydd Cymraeg hanfodol, ac sydd yn dewis cyfweiliad Saesneg, ateb o leiaf traean o'r cwestiynau yn Gymraeg er mwyn profi y gallant ymgymryd â'r rôl yn Gymraeg a Saesneg. Am y tro cyntaf eleni fe gynigom gyfweiliadau Cymraeg yn ystod y broses o recriwtio staff i'r system ddyletswydd RDS (Rhan Amser). Roedd hyn yn golygu sicrhau bod panel o reolwyr Cymraeg ar gael i gyfweld ymgeiswyr yn ystod y diwrnodau recriwtio. Roedd 35% o'r ymgeiswyr yn siaradwyr Cymraeg.
- I baratoi ar gyfer yr y Safonau Iaith Gymraeg, ac o ganlyniad i ragweld cynnydd yn y galw am ddarpariaeth iaith Gymraeg yn fewnol, bu i'r Gwasanaeth benodi pedair aelod newydd o'r Adran Adnoddau Dynol a oedd yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae hyn wedi galluogi i'n staff dderbyn cyngor ar amryfal bynciau yn ymwneud â'u hawliau yn y gweithle drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau gyda'r gwaith a sefydlwyd yn dilyn nawdd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ôl yn 2009 a 2010 i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle. Erbyn hyn mae gennym 25 o hyrwyddwyr ac y mae gofyn iddynt gwblhau ffurflen adrodd pob chwarter er mwyn bod yn gymwys i dderbyn eu lwfans chwarterol o £62.50 y chwarter. Er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol yr ydym ni'n eu hwynebu nid ydym wedi gwneud i ffwrdd â'r cynllun hwn oherwydd ein bod yn awyddus i barhau i fuddsoddi yn y Gymraeg. Mae'r Hyrwyddwyr yn parhau i dderbyn cyngor a chyfarwyddyd ar sut i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle gan y Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg. Ym mis Hydref 2014 fe dderbyniodd yr Hyrwyddwyr gwrs ffurfiol gan Goleg Cambria ar sut i fynd ati i ddysgu Cymraeg i oedolion.

- Ym mis Ionawr 2015 fe dderbyniodd pob aelod o staff galendr desg dwyieithog, yn dilyn llwyddiant ein calendr y llynedd. Mae'r calendrau yn cynnwys ymadroddion Cymraeg, geirfa syml a negeseuon tymhorol. Nod y calendr yw bod yn arf gweledol i staff i'w helpu i ymarfer eu Cymraeg a'u hatgoffa o eirfa Cymraeg syml e.e. dyddiau'r wythnos, lliwiau, yr amser, misoedd, berfau ayyb.

Hybu'r Gymraeg yn y gymuned

- Ym mis Ionawr 2015 cafodd trefniadau staffio Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu hadolygu i ystyried y Gymraeg. Bellach y mae gennym isafswm o dri aelod staff rhugl ar draws y pedair system rota. Golyga hyn bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio gydag argyfyngau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y galw.
- Rydym yn parhau i hybu ein hymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis' ar Facebook a Twitter ac yn ystod ymweliadau a'r sioeau yr ydym ni'n eu mynychu yn ystod yr Haf. Yn siomedig eleni, er gwaethaf ein hymdrechion rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl sydd yn gofyn am Archwiliad Diogelwch Tân drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'r Fforwm Iaith Gymraeg yn cadw llygaid ar y sefyllfa ac mae cynyddu nifer yr archwiliadau diogelwch tân cyfrwng Cymraeg wedi ei nodi fel un o'n meysydd blaenoriaeth ar gyfer eleni.
- Unwaith eto ym mis Tachwedd 2014 fe gydweithiodd y Gwasanaeth gyda TWF, y Mudiad Meithrin a Menter Iaith Sir Ddinbych i gynnal Diwrnod o Hwyl i'r Teulu yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Roedd y diwrnod wedi ei anelu ar gyfer plant a theuluoedd a'r nod oedd dangos pwysigrwydd y Gymraeg yn y sector cyhoeddus a phwysigrwydd addysg ddwyieithog. Fel yn achos y diwrnod a gynhaliom yn 2013 cawsom ymateb gwych gan drigolion lleol. Oherwydd llwyddiant y digwyddiad yn y Rhyl fe benderfynom gynnal digwyddiad tebyg yng Ngorsaf Dân Caergybi ym mis Chwefror eleni. Unwaith eto fe gydweithiom gyda TWF, y Mudiad Meithrin a Menter Môn i gynnal y diwrnod. Daeth dros 250 o blant ac oedolion i'r digwyddiad.

Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer y Flwyddyn Adrodd Nesaf:

- Ymateb i ofynion y Safonau Iaith Gymraeg, gan sicrhau ein bod yn ymdrechu i gydymffurfio'n lawn gyda'r gofynion craidd.
- Parhau i fod yn rhagweithiol o ran cynnig archwiliadau diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg a hybu'r ymgyrch 'Mae gen ti ddewis...', drwy sicrhau bod y Fforwm Iaith Gymraeg yn cadw llygaid ar y sefyllfa ac yn annog cydweithrediad yr holl weithlu i sicrhau cynnydd.
- Parhau i gydweithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a'n partneriaid yn y Gogledd, i rannu arferion da.
- Hybu'r Safonau Iaith Gymraeg a'r goblygiadau ar gyfer pob aelod staff ac annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn fewnol.

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol			
<p>Ceisio ffyrdd i godi proffil y Cynllun trwy: hyfforddiant ymwybyddiaeth a mynediad at gyngor a chyfarwyddyd.</p>	<p>Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol</p>	<p>Mae modiwl ymwybyddiaeth iaith wedi cael ei lansio a bu i 90 aelod o staff gwblhau'r modiwl yn ystod y mis cyntaf. Rydym yn rhannu gwybodaeth am y modiwl gyda sefydliadau eraill.</p> <p>Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn dogfen ymgyfarwyddo sydd yn cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg. Cafodd y ddogfen ei hadolygu yn 2013/14</p> <p>Parhau gyda'n mewnwyd ddwyieithog ysydd yn cynnwys adrannau am y Gymraeg, arweiniad i ddysgwyr a gwybodaeth i Hyrwyddwyr, a darparu gwybodaeth ychwanegol i staff yn Niweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam.</p> <p>Parau gyda'r prosiect i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol drwy ddefnyddio'r Hyrwyddwyr.</p>	<p>Cyfeirier at y Cynllun Iaith Gymraeg yn y Sesiynau Ymwybyddiaeth iaith. Yn y dyfodol, bydd asesiad yn dystiolaeth o hyfforddiant.</p> <p>Mewnwyd, Diweddariad y Prif Swyddog, Y Fflam</p> <p>Wedi darparu diweddariad</p>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
<p>Hyrwyddo'r Cynllun yn allanol</p> <p>Parhau i geisio ffyrdd i wella effeithiolrwydd ein gwefan wrth hyrwyddo ein delwedd fel sefydliad ddwyieithog.</p>	<p>Swyddog Cyfathrebiadau Corfforaethol</p>	<p>Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun yr Iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 diwygiedig wedi cael ei ychwanegu i'n gwefan. Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol sydd wedi eu mabwysiadu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Facebook a Twitter yn ddwyieithog hefyd.</p>	<p>Gweler gwefan/nau http://www.nwales-fireservice.org.uk/page.asp?page=114 www.facebook.com/northwalesfireservice www.twitter.com/northwalesfire</p>
<p>Paratowyd arweiniad i asiantaethau allanol a chontractwyr er mwyn tynnu eu sylw at ofynion y Cynllun. Hyn i gynnwys anogaeth gref gan drydydd parti sydd yn gweithio yn adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub i godi arwyddion ddwyieithog.</p>	<p>Rheolwyr Cefnogi Gwasanaethau</p>	<p>Mae Adran Cyfleusterau'r Gwasanaeth yn cael ei rhannu gyda'r Heddlu, ac yn cael ei gweithredu rhwng y ddau sefydliad.</p>	<p>Mae'r paragraff isod yn cael ei ychwanegu i unrhyw ddogfennau/gwaith papur sy'n cael ei anfon i gontractwyr: <i>Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cymeradwyo ei Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi fod pob arwydd dros dro neu barhaol ar ei safle yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynghorir contractwyr i gydymffurfio gyda'r polisi hwn ac i gysylltu gyda Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar 01745 535285 am gyngor a gwasanaethau darllen proflenni am unrhyw arwyddion cyn eu cynhyrchu'n derfynol.</i></p>
<p>Diweddarau'r wybodaeth a roddwn i gontractwyr ac eraill er mwyn ail-bwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog.</p>	<p>Rheolwr Ystadau</p>	<p>Cynhyrchwyd taflen ddwyieithog i'w dosbarthu i gontractwyr.</p>	<p>Gweler uchod</p>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Datblygu system lle mae cyfarwyddyd ysgrifenedig ynghylch ein Cynllun Iaith yn cael ei roi fel mater o drefn i asiantaethau a chontractwyr allanol.	Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi		Gweler uchod
Darparu'r isadeiledd mewnol			
Egluro'r cyfrifoldebau o ran rhoi cyngor a chyfarwyddyd am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.	Cyfieithydd	<p>Mae gwybodaeth ar y cynllun wedi ei gynnwys ar y fewnwyd ac mewn dau bolisi SAPPO ac fe fanteisir ar gyfleoedd i bwysleisio materion yr Iaith Gymraeg yn Niweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam</p> <p>Mae'r cylchgrawn Y Fflam yn cynnwys Colofn Gymraeg sydd yn atgyfnerthu ein hamcanion mewn perthynas â'r Gymraeg</p> <p>Mae diweddariad rheolaidd ar adnoddau iaith Gymraeg wedi ei gynnwys yn ddiweddar yn y Crynodeb Wythnosol yn dilyn ymateb gan staff i'r holiadur adnoddau iaith,</p> <p>Mae staff yn derbyn e-bost misol sydd yn codi proffil y Gymraeg – Mercher 'Marfer</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO</p> <p>Y Fflam</p>
Pennu pa grwpiau a fyddai'n goruchwyllo'n fwyaf effeithiol y gwahanol dasgau sy'n ymwneud â'r strategaeth sgiliau iaith yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cyfran ddigonol o staff sydd â sgiliau dwyieithog.	Y Fforwm Iaith Gymraeg	Mae'r Fforwm Iaith Gymraeg yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun	Cynllun Iaith Gymraeg a Pholisïau SAPPO

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Gwneud i hyn ddigwydd			
Cynyddu'r defnydd o'r cyngor a'r cyfarwyddyd priodol wrth ddatblygu polisiau a chynlluniau gwaith. Hyn i gynnwys adnabod ffyrdd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Cyfieithydd	Rhannu gwybodaeth, syniadau a chyngor gyda sefydliadau eraill. Prosiect hyrwyddo Cymraeg yn y gweithle wedi lansio syniadau eraill.	Rhoddwyd diweddariad
Cryfhawyd y cyfarwyddyd a roddir i staff ynglŷn â hyrwyddo ei delwedd gyhoeddus ddwyieithog, er mwyn atgyfnerthu'r hyn mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.	Cyfieithydd	Trwy gyflwyniad y Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a mabwysiadu'r angen i gyrraedd Lefel 2 mewn cwrteisi ieithyddol wrth gael eu penodi/dyrchafu ers Ionawr 2010. Lansiwyd modiwl ymwybyddiaeth yn ddiweddar nghyd â phwyslais ar hybu adnoddai i staff yn dilyn arolwg diweddar.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO
Cyflwyno gosod targedau sgiliau ieithyddol i'r broses flynyddol o osod targedau. Datblygu strategaeth sgiliau iaith, yn gysylltiedig â'r strategaeth IPDS er mwyn sicrhau bod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu i gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd.	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Mae gennym broses casglu gwybodaeth am hunanasesiadau ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg ac rydym yn bwriadu datblygu asesiadau a hyfforddiant i wella sgiliau ar y cyfan.	Cronfa Ddata Workforce

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
<p>Y strategaeth hon i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Egluro pa mor ddymunol fyddai sgiliau dwyieithog i gyflawni rolau unigol yn effeithiol Ceisio ffyrdd i gynyddu cyfran y gweithlu sy'n gallu siarad (gan gynnwys drwy dargedau addas) Sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth o'r Gymraeg i ddarparu o leiaf rhai o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg Gweithredu system addas sy'n gyson a gwrthrychol i asesu gallu ieithyddol 	<p>Rheolwr Datblygu a Rheolwr AD</p>	<p>Mae hwn yn rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13.</p>	<p>Gweithio gydag AD i gau'r bwlch, a monitro yn y dyfodol gan ddefnyddio Workforce.</p>
<p>Edrych ar y posibilwydd o gyflwyno gofynion newydd i rai swyddi o leiaf lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus am swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'ddymunol' ymrwymo i gyrraedd lefel ragnodedig o fedruswydd yn Gymraeg o fewn cyfnod y cytunir arno.</p>	<p>Rheolwr AD</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2013</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO</p>
<p>Cael ffyrdd o sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn cael eu datblygu sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swydd benodol (yn hytrach na rolau generig)</p>	<p>Rheolwr AD</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r canllaw ar recriwtio sefydlwyd gydag AD.</p>	<p>Gweithio gyda'r Adran AD.</p>
<p>Sicrhau bod dysgu Cymraeg yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddatblygu'r Gwasanaeth</p>	<p>Rheolwr Datblygu</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg – rhaid i bob aelod newydd o staff neu rai sy'n edrych am ddyrchafiad gyflawni Lefel 2 mewn cwrteisi ieithyddol. Erbyn hyn, mae cwestiwn ar allu yn yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn yr Adolygiad Datblygu Unigol, a'i gofnodi ar Workforce.</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO</p>

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Cyflwyno asesiadau rheolaidd o sgiliau Cymraeg staff mewn swyddi lle nodir blaenoriaeth	Cyfieithydd	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i fonitro drwy Workforce.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO
Hunanymybyddiaeth barhaus			
Cyflwyno systemau i adnabod diffygion difrifol mewn gallu dwyieithog o fewn grwpiau o weithwyr, ac egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys prinder trwy hyfforddiant neu aildosbarthu staff	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn cael ei fonitro drwy Workforce.	Gweithio gyda'r adran AD i adnabod anghenion.
Cynyddu'r defnydd o asesiadau ansoddol priodol i sefydlu pa mor effeithiol rydym yn perfformio o ran cysylltiadau cyhoeddus	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol	Mewnrwyd ddwyieithog. Gwefan dwyieithog. Cyfweiliadau ar y cyfryngau yn ddwyieithog. Cyhoeddiadau dwyieithog. Sefydlu system o nodi galwadau gan y wasg sy'n cael eu delio yn y Gymraeg.	Deunydd Cyfathrebiadau Corfforaethol
Integreiddio'r gwaith o fonitro proffil y gwasanaeth i'r prosesau blynyddol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Cytunwyd gan ddefnyddio'r Dangosyddion Perfformiad.	Gweler Atodiad 4.
Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd sy'n dod gerbron yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol am broffil ieithyddol y gwasanaeth a'i berfformiad. Hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Mae'r adroddiad monitro blynyddol yn cael ei adrodd i'r Awdurdod a'r dangosyddion perfformiad iaith Gymraeg yn cael eu hadrodd.	Gweler diweddariad

5. Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wedi ymrwmo i gyflawni 12 o Ddangosyddion Perfformiad (a adolygwyd ym mis Ionawr 2010).

O'r 1af Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2013, mae'r ffigyrau ar gyfer y dangosyddion newydd fel a ganlyn;

	Ystadegau ar gyfer 2014-15	Ystadegau ar gyfer 2013-14
PI1	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.
Sylw	Darparwyd 587 o gyflwyniadau eleni ac o'r rhain darparwyd 285 (49%) drwy gyfrwng y Gymraeg.	Darparwyd 600 o gyflwyniadau eleni ac o'r rhain darparwyd 366 (61%) drwy gyfrwng y Gymraeg.
PI2	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad
Sylw	<p>Fe dderbyniodd cyfanswm o 15,777 o blant gyngor diogelwch tân ac o'r rhain fe dderbyniodd 6,712 (43%) o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae canran y cyflwyniadau Cymraeg yn is eleni (12 %) o gymharu â llynedd), ond mae nifer y disgyblion a dderbyniodd gyflwyniad Cymraeg wedi cynyddu 4%. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith nad dy ysgolion uwchradd yng Nghonwy a Gwynedd 9ardaloedd Cymraeg0 wedi derbyn cyflwyniad hyn yma c felly fe fydd hyn yn amharu ar ganran y cyflwyniadau Cymraeg ayb.</p> <p>Fe aethom i fwy o ysgolion cynradd yn ystod y cyfnod adrodd y llynedd ond ni lwyddom i gyflawni hyn eleni oherwydd bod dau o'n Addysgwyr wedi gadael ac felly cafwyd cyfnod lle nad oedd ymweliadau wrth i ni benodi dau addysgwr newydd.</p>	<p>Fe dderbyniodd cyfanswm o 32,272 o blant gyngor diogelwch tân ac o'r rhain fe dderbyniodd 12,731 (39%) o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>O'u cymharu â 2012-2013, mae'r ffigyrau ar gyfer 2013-14 yn uwch a hynny oherwydd bod mwyafrif yr ysgol yr ymwelom ni â hwy yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd. Ni chafodd nifer o'r ysgolion llai yng Ngwynedd ac Ynys Môn ymweliad yn ystod 2012-13 ac o ganlyniad fe ymdrechom i ymweld â'r ysgolion hyn yn ystod 2013-14.</p>

PI3	Nifer a % yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.	Cyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflwynwyd yn y Gymraeg.																																																																																	
Sylw	<p>Allan o gyfanswm o 27,106 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn 2014/15, roedd 3,806 wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (14.042%).</p> <p>Cwblhawyd y nifer isaf ym mis Medi (11.8%), Mawrth 201 (12.2%) a Gorffennaf 2014 (13%) o gymharu â'r uchafswm ym mis Ebrill (15.4%), Mawrth 2014 (15%) a Ionawr 2015 (15%).</p> <p>Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015.</p> <p style="text-align: center;">ADTCau a gwblhawyd yn Gymraeg - 2014-2015</p> <table border="1" data-bbox="309 770 1240 1107"> <thead> <tr> <th>Sir</th> <th>Cyfansw m</th> <th>Cymrae g</th> <th>Saesneg</th> <th>% Cymraeg</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Conwy</td> <td>5,101</td> <td>291</td> <td>4810</td> <td>5.70%</td> </tr> <tr> <td>Sir Ddinbych</td> <td>3,761</td> <td>186</td> <td>3575</td> <td>4.95%</td> </tr> <tr> <td>Sir y Fflint</td> <td>5,960</td> <td>12</td> <td>5948</td> <td>0.20%</td> </tr> <tr> <td>Gogledd Gwynedd</td> <td>3,252</td> <td>1,639</td> <td>1613</td> <td>50.40%</td> </tr> <tr> <td>De Gwynedd</td> <td>1,742</td> <td>742</td> <td>1000</td> <td>42.59%</td> </tr> <tr> <td>Wrecsam</td> <td>4,067</td> <td>10</td> <td>4057</td> <td>0.25%</td> </tr> <tr> <td>Ynys Môn</td> <td>3,223</td> <td>926</td> <td>2297</td> <td>28.73%</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>27,106</td> <td>3,806</td> <td>23,300</td> <td>14.04%</td> </tr> </tbody> </table>	Sir	Cyfansw m	Cymrae g	Saesneg	% Cymraeg	Conwy	5,101	291	4810	5.70%	Sir Ddinbych	3,761	186	3575	4.95%	Sir y Fflint	5,960	12	5948	0.20%	Gogledd Gwynedd	3,252	1,639	1613	50.40%	De Gwynedd	1,742	742	1000	42.59%	Wrecsam	4,067	10	4057	0.25%	Ynys Môn	3,223	926	2297	28.73%	Cyfanswm	27,106	3,806	23,300	14.04%	<p>Allan o gyfanswm o 26,478 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn 2012/3, roedd 4,507 wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (17.02%). Cafwyd y nifer isaf (14.571% - 14.97% o'r holl archwiliadau a gwblhawyd yn Gymraeg) ym mis Rhagfyr ac Ionawr 2013 o gymharu â'r uchafswm (dros 18% a brin i 19%) ym mis Ebrill.</p> <p>Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014.</p> <table border="1" data-bbox="1263 707 2123 1015"> <thead> <tr> <th>Sir</th> <th>Cyfanswm</th> <th>Cymraeg</th> <th>Canran</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Conwy</td> <td>5221</td> <td>305</td> <td>5.84%</td> </tr> <tr> <td>Sir Ddinbych</td> <td>3895</td> <td>162</td> <td>4.16%</td> </tr> <tr> <td>Sir y Fflint</td> <td>4243</td> <td>23</td> <td>0.54%</td> </tr> <tr> <td>G Gwynedd</td> <td>3778</td> <td>2083</td> <td>55.13%</td> </tr> <tr> <td>D Gwynedd</td> <td>2047</td> <td>839</td> <td>40.99%</td> </tr> <tr> <td>Wrecsam</td> <td>3783</td> <td>11</td> <td>0.29%</td> </tr> <tr> <td>Ynys Môn</td> <td>3511</td> <td>1084</td> <td>30.87%</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td>4507</td> <td>17.02%</td> </tr> </tbody> </table>	Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran	Conwy	5221	305	5.84%	Sir Ddinbych	3895	162	4.16%	Sir y Fflint	4243	23	0.54%	G Gwynedd	3778	2083	55.13%	D Gwynedd	2047	839	40.99%	Wrecsam	3783	11	0.29%	Ynys Môn	3511	1084	30.87%			4507	17.02%
Sir	Cyfansw m	Cymrae g	Saesneg	% Cymraeg																																																																															
Conwy	5,101	291	4810	5.70%																																																																															
Sir Ddinbych	3,761	186	3575	4.95%																																																																															
Sir y Fflint	5,960	12	5948	0.20%																																																																															
Gogledd Gwynedd	3,252	1,639	1613	50.40%																																																																															
De Gwynedd	1,742	742	1000	42.59%																																																																															
Wrecsam	4,067	10	4057	0.25%																																																																															
Ynys Môn	3,223	926	2297	28.73%																																																																															
Cyfanswm	27,106	3,806	23,300	14.04%																																																																															
Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran																																																																																
Conwy	5221	305	5.84%																																																																																
Sir Ddinbych	3895	162	4.16%																																																																																
Sir y Fflint	4243	23	0.54%																																																																																
G Gwynedd	3778	2083	55.13%																																																																																
D Gwynedd	2047	839	40.99%																																																																																
Wrecsam	3783	11	0.29%																																																																																
Ynys Môn	3511	1084	30.87%																																																																																
		4507	17.02%																																																																																

PI4	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 1	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 1
Sylw	4 (0.58%)	6 (0.68%)
PI5	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 2	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 2
Sylw	45 (5.21%)	25 (2.84%)
PI6	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 yn Gymraeg	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 yn Gymraeg
Sylw	10 (1.16%)	3 wedi cyrraedd lefel 3 (0.34%) 28 wedi cyrraedd lefel 4 (3.18%) 84 wedi cyrraedd lefel 5 (9.56%)
PI7	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i lefel cymhwyster y cytunwyd arni yn y Gymraeg	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster y cytunwyd arni
Sylw	13 (1.51%)	5 wedi cyrraedd lefel 2 (0.57%) 3 wedi cyrraedd lefel 3 (0.34%) 12 wedi cyrraedd lefel 4 (1.37%) Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn yr ystadegau uchod
PI8	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
Sylw	Mae 130 aelod staff (15.06%) wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.	Pum sesiwn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg wedi eu cynnal i staff gweithredol ac anweithredol a 34 wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant.
PI9	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod

PI10	Nifer a % y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI11	Y perfformiad a osodwyd yn erbyn unrhyw darged sy'n cael ei fabwysiadu fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad - dyma'r targedau ar gyfer 2013/14; Nifer a % y staff newydd sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2 Nifer a % y staff newydd sydd wedi cael dyrchafiad a llwyddo yn Lefel 2	Y perfformiad a osodwyd yn erbyn unrhyw darged sy'n cael ei fabwysiadu fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad - dyma'r targedau ar gyfer 2012/13; Nifer a % y staff newydd sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2 Nifer a % y staff newydd sydd wedi cael dyrchafiad a llwyddo yn Lefel 2
Sylw	<p>Mae'n rhaid i aelodau staff newydd gyrraedd o leiaf Lefel 2 neu'r Lefel sydd yn angenrheidiol r gyfer y swydd.</p> <p>Llwyddodd 58 (73.42%) o staff newydd i gyrraedd Lefel 2 ac uwch</p> <p>Llwyddodd 7 (70%) aelod staff a oedd wedi cael dyrchafiad i gyrraedd Lefel 2 ac uwch</p>	<p>Mae'n rhaid i staff newydd ennill llwyddiant mewn Lefel 2 neu'r lefel hanfodol ar gyfer y swydd.</p> <p>O'r 38 aelod staff newydd a gychwynodd yn 2013/14 mae nifer yr aelodau staff newydd sydd wedi llwyddo fel a ganlyn:</p> <p>Llwyddiant lefel 1 – 1 (0.11%) Llwyddiant lefel 2 – 7 (0.23%) Llwyddiant lefel 4 – 9 (1.02%) Llwyddiant lefel 5 – 10 (1.14%)</p> <p>Mae 11 yn gweithio tuag at gyrraedd lefel 2 yn ystod eu cyfnod prawf.</p> <p>Nifer a chanran y 26 aelod staff a gafodd ddyrchafiad yn ystod 2013/14 ac sydd wedi llwyddo i gyrraedd lefel benodol yn 2013/14:</p> <p>11 yn lefel 2 2 yn lefel 3 6 yn lefel 5 A 5 yn gweithio tuag at y lefel angenrheidiol</p> <p>Cynigwyd lle ar gwrs Cymraeg Lefel 2, sydd i'w gynnal yn 204/15, i'r holl aelodau staff newydd a phawb a oedd wedi cael dyrchafiad ond heb gyrraedd lefel 2.</p>

PI12	Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Sir o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.	Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Sir o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.
Sylw	Mae'r galwadau a nodwyd yn rhai yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn unig gan ei bod hi'n bolisi safonol i ateb pob galwad yn ddwyieithog. Gweler isod am rifau ar gyfer pob sir.	Mae'r galwadau a nodwyd yn rhai yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn unig gan ei bod hi'n bolisi safonol i ateb pob galwad yn ddwyieithog. Gweler isod am rifau ar gyfer pob sir.
PI13	Nifer a % y llythyrau a dderbyniwyd ac a anfonwyd yn Gymraeg yn y Swyddfeydd Sirol o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd bob blwyddyn.	Nifer a % y llythyrau a dderbyniwyd ac a anfonwyd yn Gymraeg yn y Swyddfeydd Sirol o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd bob blwyddyn.
Sylw	<p>Mae'r swyddfeydd sirol wedi cael eu huno- ac felly mae'r ffigurau yn seiliedig ar ddwy sir fel y nodir isod.</p> <p>Conwy a Sir Ddinbych 15.57% o lythyrau a 6.75% o alwadau</p> <p>Wrecsam a Sir y Fflint 21% o lythyrau a 0% o alwadau</p> <p>Gwynedd ac Ynys Môn 68% o lythyrau a 61.7% o alwadau</p> <p>(Mae'r holl lythyrau mewn perthynas ag archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael eu hanfon allan yn ddwyieithog ymhob sir)</p>	<p>Cafodd y swyddfeydd sirol eu huno'r llynedd - ac felly mae'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer rhai swyddfeydd yn seiliedig ar ddwy sir fel y nodir isod.</p> <p>Conwy a Sir Ddinbych 11.87% o lythyrau a 6.6% o alwadau</p> <p>Wrecsam a Sir y Fflint 0% o lythyrau a 0% o alwadau</p> <p>Gwynedd ac Ynys Môn 51.94% o lythyrau a 55.47% o alwadau</p> <p>(Mae'r holl lythyrau mewn perthynas ag archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael eu hanfon allan yn ddwyieithog ymhob sir)</p>
PI14	Nifer a % y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod

PI15	Nifer a % y swyddi prif dderbynfeydd a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog	Nifer a % y swyddi prif dderbynfeydd a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog.
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI16	Nifer a % y staff o fewn y Gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, gradd y swydd, neu fan gwaith.	Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, gradd y swydd neu fan gwaith.
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
